

Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Canllaw byr ar ddiogelu eich safle rhag tân



Chief Fire Officers'
Association

Canllaw byr ar
ddiogelu eich safle rhag tân

Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi cyngor syml ac ymarferol i'r rheini sy'n gyfrifol am ddiogelu rhag tân mewn busnesau bach a chanolig.

Mae'n rhoi arweiniad i chi ar sut i wneud yn siwr eich bod chi'n bodloni Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Nid yw'n mynd i fanylder, ac nid yw'n disodli unrhyw un o'n canllawiau mwy cynhwysfawr.

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth, cewch wybod sut i gael gafael ar y gwahanol ganllawiau ar ddiwedd y daflen hon. Cewch restr o ddeunyddiau darllen eraill defnyddiol yno hefyd.

Beth yw Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005?

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i reoleiddio lle mae angen hynny yn unig, gan fynd ati mewn modd sy'n fwy addas i anghenion busnesau modern. Dyna pam y gwnaed y gorchymyn hwn, o dan Ddeddf Diwygio Rheoleiddio 2000. Mae'n disodli'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu rhag tân gydag un gorchymyn syml. Mae'n golygu bod yn rhaid i unrhyw un sydd â rhywfaint o reolaeth dros safle gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o dân. Rhaid iddynt hefyd wneud yn siwr bod pobl yn gallu dianc yn ddiogel mewn achos o dân.



Beth mae'r llyfryn hwn yn ei wneud?

Bydd y llyfryn hwn yn eich arwain gam wrth gam drwy'r broses o sicrhau bod eich safle mor ddiogel â phosib. Yn y rhan fwyaf o achosion, fydd dim angen rhagor o wybodaeth na hyfforddiant arbenigol neu ffurfiol arnoch chi.

Yn aml, mater o synnwyr cyffredin yw diogelu rhag tân, ond bydd rhaid ichi wneud yn siwr eich bod chi'n neilltuo digon o amser i fynd drwy'r camau angenrheidiol hyn. Yn achos safleoedd mwy cymhleth neu safleoedd lle mae llawer o bobl yn agored i risg, fel cartrefi gofal, ysbytai neu sinemâu mawr, efallai y byddwch chi angen help mwy arbenigol.

Ym mhle y mae'r gorchymyn yn berthnasol?

Mae'r gorchymyn yn berthnasol i fwy neu lai pob safle, gan gynnwys bron i bob math o adeilad, strwythur a man agored. Er enghraifft, mae'n berthnasol i:

- swyddfeydd a siopau;
- safleoedd sy'n darparu gofal, gan gynnwys cartrefi gofal ac ysbytai;
- neuaddau cymunedol, mannau o addoliad a safleoedd cymunedol eraill;
- yr ardaloedd cyffredin mewn eiddo lle mae llawer o wahanol aelwydydd yn byw (gall y ddeddfwriaeth tai fod yn berthnasol yn yr achosion hyn hefyd);
- tafarndai, clybiau a thai bwyta;
- ysgolion a chanolfannau chwaraeon;
- pebyll a marquees;
- gwestai a hosteli; a
- ffatrioedd a warysau.

Nid yw'n berthnasol i:

- gartrefi preifat, gan gynnwys fflatiau unigol mewn bloc neu dŷ.

Beth yw prif reolau'r gorchymyn?

Rhaid i chi:

- gynnal, neu ddewis rhywun i gynnal, asesiad risgiau tân sy'n nodi unrhyw beryglon neu risgiau posib;
- ystyried pwy allai fod yn fwy agored i risg na'r cyffredin;
- cyn belled ag sy'n ymarferol bosib, dileu neu leihau unrhyw risg o dân, a darparu rhagofalon tân cyffredinol er mwyn delio ag unrhyw risgiau sy'n weddill;
- cymryd camau eraill i wneud yn siwr bod gennych fesurau diogelwch os oes deunyddiau fflamadwy neu ffrwydrol yn cael eu defnyddio neu eu storio yn y safle;
- llunio cynllun i ddelio ag unrhyw argyfwng ac, yn y rhan fwyaf o achosion, cadw cofnod o'r hyn rydych chi wedi ei nodi;
- adolygu yr hyn rydych chi wedi ei nodi, yn ôl y gofyn.



Anhaclus a pheryglus

Pwy sy'n gyfrifol am fodloni'r gorchymyn?

O dan y gorchymyn, gall unrhyw un sydd â rheolaeth dros safle neu unrhyw un sydd â rhywfaint o reolaeth dros ardaloedd neu systemau penodol fod yn 'berson cyfrifol'. Er enghraifft, efallai mai'r person hwn yw:

- y cyflogwr ar gyfer y rhannau hynny o'r safle y mae ganddo reolaeth drostynt;
- yr asiant rheoli neu'r perchennog ar rannau o'r safle sy'n cael eu rhannu ag eraill, neu dros offer diogelwch tân sy'n cael eu rhannu ag eraill, fel systemau rhybuddio am dân neu sbrincleri;
- y meddianwyr, fel pobl hunangyflogedig neu fudiadau gwirfoddol, os oes ganddyn nhw unrhyw reolaeth; neu
- unrhyw un arall sydd â rhywfaint o reolaeth dros ran o'r safle.

Er y bydd yn amlwg mewn llawer o safleoedd pwy yw'r person cyfrifol, efallai y bydd rhai achlysuron pan y bydd gan nifer o bobl beth cyfrifoldeb.

Sut ydw i'n bodloni'r gorchymyn?

Os mai chi yw'r person cyfrifol, rhaid i chi wneud yn siwr eich bod yn cynnal asesiad risgiau tân, er y gallwch ddirprwyo'r gwaith hwn i berson cymwys arall. Serch hynny, yn ôl y gyfraith, chi fydd yn dal yn gyfrifol am fodloni'r gorchymyn.

Rhaid i'r person cyfrifol, un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag unrhyw berson cyfrifol arall, cyn belled ag sy'n resymol ymarferol sicrhau y gall pawb yn y safle, neu gerllaw iddo, ddianc yn ddiogel mewn achos o dân.

Mae hyn yn wahanol i'r ddeddfwriaeth flaenorol oherwydd rhaid ichi ystyried pawb a allai fod yn eich safle, p'un a ydynt yn weithwyr, ymwelwyr neu aelodau o'r cyhoedd, er enghraifft mewn digwyddiad yn yr awyr agored. Dylech roi sylw arbennig i bobl sydd ag anabledd neu unrhyw un a allai fod angen help arbennig.

Mae'r gorchymyn yn mynnu bod yn rhaid ichi reoli unrhyw risgiau tân yn eich safle. Nid yw awdurdodau tân bellach yn cyhoeddi tystysgrifau tân, ac ni fydd statws cyfreithiol i'r rheini sydd eisoes wedi'u cyhoeddi.

Mae'n ofynnol o hyd ichi gynnal asesiad risgiau tân, ond bydd unrhyw dystysgrifau tân sydd gyda chi yn fan cychwyn da i'ch asesiad.

Os yw eich safle wedi cael ei gynllunio a'i adeiladu yn unol â rheoliadau adeiladu modern (a'i fod yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r rheoliadau hynny), dylai eich rhagofalon tân strwythurol fod yn dderbyniol. Bydd yn dal yn ofynnol ichi gynnal asesiad risgiau tân, a gwneud yn siwr eich bod yn mynd ati i gynnal eich holl ragofalon tân a'ch trefniadau cynnal a chadw.

Asesiad risg diogelwch rhag tân

1 Nodwch y peryglon tân Nodwch:

- pethau allai gynnau tân;
- pethau allai fod yn danwydd;
- pethau allai fod yn ffynhonnell ocsigen

2 Nodwch y bobl sy'n agored i risg Nodwch:

- pobl yn y safle ac o'i gwmpas
- pobl sy'n fwy agored i risg na'r cyffredin

3 Gwerthuswch, dilewch neu leihewch ac amddiffynnwch rhag risg

- Gwerthuswch y risg y bydd tân yn cynnau.
- Gwerthuswch y risg i bobl mewn achos o dân.
- Dilewch neu leihewch beryglon tân.
- Dilewch neu leihewch y risg i bobl mewn achos o dân.
- Diogelwch bobl drwy ddarparu rhagofalon tân.

4 Cofnodwch, cynlluniwch, hysbyswch, cyfarwyddwch a hyfforddwch

- Cofnodwch unrhyw beth pwysig rydych chi yn ei ganfod a'r camau rydych chi wedi cymryd.
- Trafodwch a chydweithiwch gyda phobl cyfrifol eraill.
- Paratowch gynllun argyfwng
- Hysbyswch a chyfarwyddwch y bobl berthnasol
- Darparwch hyfforddiant

5 Adolygwch

- Adolygwch eich asesiad risgiau tân yn rheolaidd.
- Gwnewch newidiadau.

Cofiwch adolygu eich asesiad risgiau tân yn rheolaidd.

Cam 1 - Nodwch y peryglon yn eich safle

Mae angen i chi nodi:

- pethau allai gynnau tân, fel fflamau noeth, gwresogyddion neu rai prosesau masnachol;
- pethau allai fod yn danwydd, megis pentyrrau o wastraff, deunyddiau arddangos, tecstilïau neu bentyrrau o stoc;
- pethau allai fod yn ffynhonnell ocsigen, fel systemau aer dan bwysau, neu gyflenwadau ocsigen meddygol neu fasnachol.



Cam 2 - Nodwch y bobl sy'n agored i risg

Bydd angen i chi nodi'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i risg na'r cyffredin, fel:

- pobl sy'n gweithio gerllaw peryglon tân;
- pobl sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain neu mewn ardaloedd ynysig (er enghraifft mewn gofodau to neu mewn stordai);
- plant neu rieni â babis; a
- yr henoed a'r methodig, a phobl anabl.

Cam 3 – Gwerthuswch, dilewch neu leihewch, ac amddiffynnwch rhag risg

Gwerthuswch lefel y risg yn eich safle. Lle mae hynny'n bosib, dylech ddielu neu leihau unrhyw risgiau rydych chi wedi eu nodi. Er enghraifft, dylech chi:

- ddefnyddio deunyddiau llai fflamadwy yn lle rhai fflamadwy iawn;
- gwneud yn siwr eich bod yn gwahanu deunyddiau fflamadwy oddi wrth bethau allai gynnau tân;
- llunio polisi ar smygu diogel.

Unwaith rydych chi wedi lleihau'r risg gymaint â phosib, rhaid ichi asesu unrhyw risg sy'n weddill a phenderfynu a oes unrhyw gamau eraill sydd angen i chi eu cymryd er mwyn darparu lefel resymol o ddiogelwch tân.

Y rhagofalon tân cyffredinol efallai y bydd angen ichi eu cymryd

Yn y llyfryn byr hwn, mae'n amhosib rhoi arweiniad manwl ar gyfer pob math o safle. Serch hynny, bydd angen i chi o leiaf ystyried y canlynol:

System synhwyro a rhybuddio am dân





- Rhaid i chi gael system addas i synhwyro a rhybuddio am dân. Gallai hyn amrywio o waedd i roi rhybudd, i system drydanol sy'n synhwyro a rhybuddio am dân.
- Pa bynnag fath o system sydd gyda chi, rhaid iddo allu rhybuddio pobl ym mhob math o amgylchiadau.



Ffordd o ddiffodd tân bychan

- Efallai y bydd yn dderbyniol i chi gael diffoddyddion tân amlwrpas sydd ag oes silff wedi'i warantu.
- Yn gyffredinol dylech gael un diffoddydd ar gyfer pob 200 metr sgwar (m²) o arwynebedd llawr, gydag o leiaf un diffoddydd ar bob llawr.

Y prif fathau o ddiffoddyddion cludadwy

Dŵr	Powdwr	Ewyn	Carbon Deuocsid (CO ₂)
Ar gyfer tanau pren, papur, tecstilïau a deunydd solid.	Ar gyfer tanau hylif a thrydan	Ar gyfer tanau hylif	Ar gyfer tanau hylif a thrydan
			
Peidiwch â'i ddefnyddio ar danau hylif, trydan neu fetel.	Peidiwch â'i ddefnyddio ar danau metel.	Peidiwch â'i ddefnyddio ar danau trydan neu fetel.	Peidiwch â'i ddefnyddio ar danau metel.

Mae'r lliw ar y botel goch yn dangos ichi beth yw cynnwys y diffoddydd.

Nid oes llun o ddiffoddydd halon oherwydd ni cheir cynhyrchu rhagor o halon yn y Deyrnas Unedig.

Llwybrau diogel i bobl adael y safle

- Yn ddelfrydol, bydd mwy nag un llwybr dianc o bob rhan o'r safle, ond nid yw hyn bob amser yn bosib.
- Os mai dim ond un llwybr sydd ar gael, efallai y bydd angen i chi sicrhau ei fod yn gallu gwrthsefyll tân neu efallai y bydd angen ichi osod system synhwyro tân.
- Dylai'r pellter y mae'n rhaid i bobl fynd er mwyn dianc (y pellter teithio) fod mor fyr â phosib. Mae'r pellter teithio yn cael ei fesur o'r man pellaf mewn stafell i'r drws sy'n agor ar risiau a amddiffynnir (*protected stairway*). Neu, os nad oes grisiau a amddiffynnir, i'r allanfa olaf o'r adeilad.
- Os mai dim ond un llwybr dianc sydd ar gael, yna ni ddylai'r pellter teithio fel arfer fod yn hirach na 18 metr. Dylai'r pellter hwn fod yn fyrrach (12 metr neu lai) mewn unrhyw ran o'r safle lle mae siawns uchel i dân gychwyn neu ledaenu'n gyflym. Gall y pellter fod yn hirach (hyd at 25 metr) lle mae'r siawns i dân gychwyn neu ledaenu'n gyflym yn isel iawn.
- Os oes mwy nag un llwybr dianc, ni ddylai'r pellter teithio fel arfer fod yn hirach na 45 metr. (Gall hyn fod tua 25 metr mewn ardaloedd lle mae'r risg o dân yn uchel, a tua 60 metr mewn ardaloedd lle mae'r risg o dân yn isel iawn.)
- Dylai grisiau, coridorau ac ardaloedd ger allanfeydd tân gael eu cadw'n wag o rwystrau a deunydd a allai fynd ar dân.
- Dylai'r llwybr dianc arwain at allanfa derfynol ac at fan diogel.
- Os nad yw'r grisiau yn risiau a amddiffynnir, dylai'r pellterau teithio fod yr un â'r rheini ar gyfer ardaloedd ag un llwybr dianc yn unig. Hefyd, dylai'r allanfa derfynol fod yn hawdd ei gweld a'i chyrraedd o'r grisiau ar y llawr daear.
- Yn gyffredinol, ni ddylai stafelloedd risg uchel agor yn uniongyrchol ar risiau a amddiffynnir rhag tân.
- Os ydy eich asesiad risgiau tân yn dangos na fyddai pobl, ar unrhyw llawr, yn ymwybodol bod tân wedi cynnau, efallai y bydd angen mesurau eraill i ddiogelu rhag tân, er enghraifft system awtomatig i synhwyro a rhybuddio am dân.

Byddwch yn ofalus wrth ddilyn y canllawiau uchod. Rhaid ichi edrych ar bob rhan o'r safle a phenderfynu pa mor gyflym y byddai pobl yn ymateb i rybudd am dân. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth neu os ydy eich safle yn darparu cyfleusterau gofal neu gysgu, darllenwch y canllawiau manwl y mae'r Llywodraeth wedi eu cyhoeddi, neu mynnwch gyngor arbenigol. Gall rhai ffatrïoedd a warysau fod â phellter teithio hirach i ddianc rhag tân.

Allanfeydd tân addas

- Dylid bod modd defnyddio'r allanfeydd tân ac unrhyw ddrysau ar hyd y llwybrau dianc heb allwedd a heb unrhyw wybodaeth arbenigol.
- Mewn safleoedd y mae'r cyhoedd neu nifer fawr o bobl yn eu defnyddio, efallai y byddwch angen bariau gwthio (bariau panig) neu badiau gwthio.

Pethau eraill i'w hystyried

- A oes angen goleuadau argyfwng arnoch chi.
- Arwyddion diogelwch tân ym mhob safle ond y safleoedd lleiaf.
- Hyfforddiant ar gyfer eich staff neu unrhyw un arall y mae'n rhesymol disgwyl i chi eu helpu mewn achos o dân.
- System reoli er mwyn sicrhau eich bod yn cynnal a chadw eich systemau diogelu rhag tân.

Efallai y bydd rhai safleoedd bach a syml iawn yn gallu bodloni'r camau hyn yn ddiraffferth. Serch hynny, bydd disgwyl o hyd ichi fedru dangos eich bod wedi cynnal pob un o'r camau.

Cam 4 - Cofnodwch, cynlluniwch, hysbyswch, cyfarwyddwch a hyfforddwch

Yn y cam hwn, dylech gofnodi, cynllunio, hysbysu, cyfarwyddo a hyfforddi. Bydd angen ichi gofnodi'r peryglon a'r bobl rydych chi wedi eu nodi sy'n fwy agored i risg na'r cyffredin yng **ngham 1** a **cham 2**. Dylech hefyd gofnodi beth wnaethoch chi am hynny yng **ngham 3**. Gall cynllun syml eich helpu i wneud hyn.

Hefyd, bydd angen ichi lunio cynllun argyfwng yn arbennig ar gyfer eich safle.

Dylai gynnwys y camau sydd angen ichi eu cymryd mewn achos o dân yn eich safle chi neu mewn unrhyw safle cyfagos. Bydd angen i chi roi cyfarwyddiadau i staff ac, yn achlysurol, i eraill megis gwesteion neu stiwardiaid gwirfoddol. Dylai pob gweithiwr dderbyn digon o wybodaeth a hyfforddiant am y risgiau sydd yn y safle. Bydd rhai ohonynt, er enghraifft swyddogion tân, angen hyfforddiant mwy trylwyr.

Cam 5 - Adolygu

Dylech wneud yn siwr bod eich asesiad risgiau tân yn ddiweddar. Bydd angen ichi ailedrych ar eich asesiad risgiau tân os ydych yn amau nad ydyw bellach yn ddilys, er enghraifft pan fu tân bron â chynnau, a phob tro y mae newid sylweddol i lefel y risg yn eich safle. Efallai bydd angen hyn:

- os ydych yn storio mwy o ddeunyddiau a allai fynd ar dân yn hawdd;
- os oes shifft nos newydd yn dechrau; neu
- os oes newid yn y math o bobl, neu'r nifer ohonynt, sy'n defnyddio eich safle.

Plismona'r gorchymyn

Yr awdurdodau tân fydd y brif asiantaeth sy'n gyfrifol am blismona'r holl ddeddfwriaeth diogelwch tân mewn safleoedd annomestig. Byddant yn targedu eu hadnoddau a'u harolygon at y safleoedd hynny sydd â'r risg mwyaf yn perthyn iddynt. Bydd pob awdurdod tân yn dal i archwilio cwynion am ddiogelwch tân, a chynnal ymchwiliadau ar ôl achosion o dân pan fo tystiolaeth o drefniadau rheoli gwael o ran diogelu rhag tân. Gallant hefyd gynnal arolygiadau wedi'u targedu.

Os nad ydych yn bodloni'r gorchymyn, bydd yr awdurdod tân yn rhoi cyngor ymarferol i chi neu, os ydy'r risg yn ddifrifol, bydd yn cyflwyno hysbysiad ffurfiol. Heblaw yn yr achosion mwyaf difrifol, bydd yr awdurdod tân yn gweithio gyda chi er mwyn sicrhau lefel foddhaol o ddiogelwch tân.

Os oes risg difrifol iawn i fywyd, gall yr awdurdod tân gyhoeddi hysbysiad yn atal defnyddio'r safle at rai dibenion (er enghraifft cysgu), neu'n atal pobl rhag defnyddio rhai mannau o'r safle, neu'r safle cyfan. Mae'r pŵer hwn yn cael ei rannu ag awdurdodau tai yn achos eiddo lle mae sawl aelwyd yn byw.

Ym mhob achos, bydd gennych hawl i apelio, a hynny yn anffurfiol ac yn ffurfiol.

Weithiau gall apêl anffurfiol, fel arfer i reolwr mwy profiadol ym maes diogelwch tân, olygu eich bod yn dod o hyd i ffordd arall o fodloni'r gorchymyn.

Os nad yw hyn yn llwyddiannus, gallwch apelio'n ffurfiol i ynad. Hefyd, os ydy'r hysbysiad yn ymwneud â materion technegol, bydd cyfle ichi gytuno gyda'r awdurdod tân i ofyn am benderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Os ydych chi'n newid eich safle

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd modd ichi newid eich safle. Serch hynny, cofiwch y byddwch yn gyfrifol am reoli'r risgiau rydych chi yn eu creu, a byddwch yn dal i orfod dilyn y broses gynllunio a'r rheoliadau adeiladu. Bydd angen i chi edrych unwaith eto ar eich asesiad risgiau tân ac ystyried sut y bydd y newidiadau yn effeithio ar y risgiau yn eich safle. Dylech asesu a ydyw eich mesurau rheoli risg yn ddigonol, ac a oes angen ichi gymryd rhagor o gamau i ddiogelu rhag tân.


Mae rhai safleoedd â mwy o risg yn perthyn iddynt, lle gellid dadlau bod mwy o risg i fywyd nag arfer neu lle mae angen trefniadau arbennig o gymhleth i sicrhau diogelwch tân. Yn yr achosion hynny, bydd yr awdurdod tân yn gallu cyhoeddi hysbysiad addasiadau. O dan yr hysbysiad addasiadau, rhaid ichi roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau rydych yn bwriadu eu gwneud i'r safle, petai'r newidiadau hynny yn golygu cynnydd sylweddol yn y risg.

Enghraifft o sut i gynnal asesiad risg syml

Nid dyma'r unig ffordd o gynnal asesiad risgiau tân

Sut bynnag rydych yn mynd ati, dylech fedru dangos eich bod wedi cydymffurfio â'r gyfraith.

Cyn yr asesiad risgiau tân



Gwnewch ddarlun syml o'r safle, yn fras i raddfa, yn dangos unrhyw nodweddion strwythurol perthnasol, fel grisiau, a sut y mae gwahanol ardaloedd yn cael eu defnyddio, er enghraifft ar gyfer cynhyrchu, storio neu gysgu.

Dylai'r cynllun ddangos unrhyw beryglon (**cam 1**) a'r bobl sy'n arbennig o agored i risg (**cam 2**). Dylai hefyd ddangos lle y mae pethau a allai fynd ar dân yn hawdd a phethau a allai gynnau tân, yn agos at ei gilydd.

Gallech ddefnyddio system syml o gylchoedd a chroesau - cylchoedd am bethau a allai losgi a chroesau am bethau a allai gynnau tân.


Cam 3 – Dylai'r camau rydych yn eu cymryd fod yn rhai synnwyr cyffredin ac, ar y cyfan, ni ddylent fod yn ddrud. Os yw unrhyw rai o'r gofynion yn ddrud i'w cyflwyno, efallai y byddwch yn gallu defnyddio mesurau dros dro nes y byddwch yn gallu cyflwyno'r mesurau llawn.

Dim ond os nad oes risg difrifol i bobl y bydd hyn yn dderbyniol.

Dylech lunio cynllun argyfwng ac asesu'r gofynion hyfforddi, cyfarwyddo a chofnodi o dan **gam 4**.

O dan **cam 5** dylech benderfynu ar system adolygu rheolaidd.

Ar ôl yr asesiad risgiau tân



Cyngor a gwybodaeth

Os ydych chi angen mwy o gyngor neu wybodaeth ymarferol ar ôl ichi gynnal eich asesiad risgiau tân, efallai y bydd eich Gwasanaeth Tân ac Achub yn gallu eich helpu (edrychwch o dan 'Tân/Fire' yn y llyfr ffôn).

Mae'r canllawiau, yn cynnwys y canllaw perthnasol ar gyfer eich math chi o safle, ar gael mewn siopau llyfrau da, a gallwch eu llwytho o'r we hefyd:

www.cymru.gov.uk/tan

Gallwch gael gwybodaeth am reoli risgiau prosesau a deunyddiau ffrwydrol neu fflamadwy iawn o'ch swyddfa HSE leol, neu o'u gwefan: www.hse.gov.uk.

Gallwch gael rhagor o gopiâu o'r llyfryn hwn wrth:

Cangen y Gwasanaeth Tân ac Achub
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 825111
E-bost: fire@wales.gsi.gov.uk

Mae hawlfraint y canllaw hwn yn eiddo i'r Goron.

© Mae'r hawlfraint o ran y cynnwys, y dyluniad a'r trefniadau teipograffyddol yn eiddo i'r Goron.